Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Gylch Meithrin Shotton

**Plymouth Street**
**Ysgol Croes Atti Glannau Dyfdrwy**
**Shotton**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 1JD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Shotton

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Shotton |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwenllian Lansdown-Davies a Leanne Marsh |
| Person â gofal | Carrie Guest |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9yb tan 3yp o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mai 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/03/2023 |
| Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn herio'r plant i ddatrys problemau, sy'n cyfateb i'w hanghenion

A2 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad ac maent yn lleisio eu barnau yn gyson. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu eu hunain i adnoddau mewn unedau storio ac o fewn ardaloedd chwarae yn effeithiol. Maent yn gwybod y caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried yn dda. Er enghraifft, maent yn gofyn am gefnogaeth a chymorth yr ymarferwyr yn ddeallus cyn mynd i'r tŷ bach, dewis diod, ac i newid dillad ac esgidiau i fynychu'r awyr agored.

Mae bron bob un plentyn yn setlo'n gyflym ac maent yn hapus yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu o'u rhieni a'u gofalwyr ac mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yng ngofal yr ymarferwyr. Mae bron bob un ohonynt yn ymgartrefu'n gyflym iawn yn eu hamgylchedd wrth iddynt fynd ati i ddewis ble i chwarae, ac maent yn sgwrsio, chwerthin a chanu wrth wneud hyn. Maent yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Er enghraifft, mae plant yn awyddus i ddangos a thrafod eu bwydydd unigol wrth y bwrdd cinio. O ganlyniad, mae plant yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad ac yn ymdopi'n dda â newidiadau i drefn y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasol a rhyngweithio da. Maent yn cydweithio, cymryd tro a rhannu yn ddiffwdan wrth chwarae. Mae bron bob un yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn arbrofi, cefnogi ac yn aros eu tro yn amyneddgar wrth chwarae gyda dŵr yn yr awyr agored. Mae'r holl blant yn mwynhau cymryd cyfrifoldeb. Er enghraifft, yn eu rôl fel 'Helpwr Heddiw', maent yn mwynhau paratoi a dosbarthu llestri a bwydydd, ac yn dangos mwynhad wrth iddynt dderbyn clod gan ymarferwyr a phlant eraill.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gydwybodol, egnïol a brwdfrydig wrth ymgymryd â'u chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, maent yn canu wrth liwio a defnyddio adnoddau crefft, ac yn mynd ati'n annibynnol i osod eu gwaith yn eu bagiau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol, llythrennedd, rhifedd a'u creadigrwydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn chwarae rôl yn ddychmygus, arbrofi yn yr ardal gwneud marciau gyda sialciau, a dyfalbarhau wrth ddefnyddio adnoddau rolio, gwasgu a thorri wrth chwarae a thoes. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n bwrpasol a diddori yn eu gwaith wrth iddynt arbrofi ag adnoddau digidol yn hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau defnyddio camerâu, pegiau siarad a llechi electronig i ddatblygu eu medrau digidol cynnar.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, gan gynnwys defnyddio'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo, sychu eu trwynau a thywallt diod. Maent yn dangos balchder wrth gyflawni tasgau fel gwisgo a dadwisgo dillad ac esgidiau glaw ac maent yn dangos mwynhad wrth dderbyn canmoliaeth wrth lwyddo. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau ac yn penderfynu sut i dreulio'u hamser yn dda. O ganlyniad, maent yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu a chwarae ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch a iechyd y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn glynu at bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol, ac maent yn ddeallus ynglŷn ag anghenion unigol plant. O ganlyniad, maent yn dilyn gweithdrefnau'n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn o ran hylendid bwyd yn rheolaidd; er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, gwisgo'n gywir wrth baratoi byrbrydau, a golchi dwylo yn rheolaidd.

Mae'r hyfforddiant ynglŷn â diogelu plant yn gadarn ac mae'r ymarferwyr yn hyderus ynghylch sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cymarebau plant i ymarferwyr yn addas ac maent yn cofrestru plant yn gywir ac yn sicrhau bod gweithdrefnau derbyn a gadael y plant a'r ymarferwyr yn effeithiol. Yn ogystal, mae gan y lleoliad weithdrefnau a rhwydweithiau pwrpasol ar waith ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl a chynnes â'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn rhyngweithio'n deyrngar, ac yn esbonio i'r plant, a'u cefnogi, i barchu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da iawn ac yn rheoli rhyngweithiadau cadarnhaol, lle maent yn gwrando, yn cydweithio ac yn egluro mewn modd clir a gofalgar. Er enghraifft, wrth i blant ddyfalbarhau a llwyddo, mae ymarferwyr yn eu canmol yn gyson, sydd yn llwyddo i ddatblygu eu hunanhyder yn fwriadus. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo bwta ac yfed yn iach yn dda ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau corfforol y plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion a dymuniadau unigol y plant. Maent yn annog annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif. Er enghraifft, pan mae plant yn gofyn am help i gwblhau tasgau, mae'r ymarferwyr yn cynnig anogaeth sydd yn adeiladu ar eu medrau unigol i feithrin eu hunan-barch. Yn ogystal, maent yn hybu ydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg y plant yn ddeallus ac yn ymestyn profiadau dysgu'r plant yn ddigymell. Er enghraifft, yn yr ardal greadigol, mae ymarferwyr yn adeiladu ar wybodaeth y plant am adar yn bwrpasol ac yn eu cefnogi i feddwl, holi ac ymestyn eu dealltwriaeth trwy ddefnyddio adnoddau digidol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu effeithiol yr ymarferwyr yn cymell y plant i ganolbwyntio'n dda wrth iddynt ymgymryd â phrofiadau dysgu a chwarae buddiol. Mae eu hanogaeth gadarnhaol yn cael effaith dda ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant. Maent yn eu

herio i weithio'n annibynnol wrth ddatblygu eu holl fedrau. Er enghraifft, maent yn ysgogi'r plant i gynllunio a chreu cardiau i'w postio mewn amlenni ac i gydweithio i lenwi bwcedi a berfa â dŵr o'r tap allanol.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddoeth yn chwarae'r plant. Maent yn eu holi'n fedrus ac yn manteisio ar gyfleoedd i ymestyn geirfa a chystrawen y plant yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i drafod sut i greu patrymau â theclynnau ar does. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i herio'r plant i ddatrys problemau yn gwbl annibynnol. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr yn targedu gwir alluoedd y plant yn ddigon effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn sbarduno'r plant i yrru beiciau ar y buarth yn fentrus ac i ddringo a llithro ar gyfarpar anturus. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel creu enfys gydag olion llaw'r plant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn ymestyn medrau'r plant yn grefftus wrth goginio yn y gegin fwd a phlannu grug mewn esgidiau glaw. Mae hyn yn cefnogi medrau cymdeithasol, cyfathrebu a modur mân y plant yn llwyddiannus yn ogystal â'u dysgu sut i ofalu am blanhigion a phethau byw.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio cwricwlwm buddiol a chyffrous, sy'n dilyn awgrymiadau a diddordebau'r plant yn grefftus. Maent yn defnyddio arsylwadau'n briodol i gofnodi cynnydd y plant ac i addasu'r ddarpariaeth er mwyn ymateb yn well i'w hanghenion. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob tro'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn ymestyn eu dealltwriaeth yn ystod sesiynau chwarae trwy herio unigolion i esbonio eu gweithredoedd yn bwyllog a ddealladwy. Gwneir hyn wrth iddynt drafod sut i gynllunio ac adeiladu rheilffordd ac wrth iddynt ddidoli a rhifo deinosoriaid yn yr ardal byd bach. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i wella medrau digidol cynnar y plant. Maent yn annog y plant yn synhwyrol i ddefnyddio llechi electronig ac apiau addysgol a chynnal trafodaethau dychmygus ar ffôn symudol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol, yn enwedig wrth y bwrdd byrbryd, tra'n rhannu a sgyrsio â'i gilydd. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, hanes Santes Dwynwen ac astudio baner Cymru. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio bwydydd o wledydd eraill a darllen llyfrau sy'n ymwneud â materion amlddiwylliannol ac anabledd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a chyfarfodydd am gynnydd y plant, sydd ar gael yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Mae'r amgylchedd yn cynnwys adeilad newydd ac ardal awyr agored raenus. Nid oes modd

i ymwelwyr gael mynediad i'r safle oni bai fod arweinwyr neu ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi'n  brydlon a chedwir cofnodion o hyn yn y brif dderbynfa. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth ac offer i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys yr offer tân ac adnoddau cymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol ar gyfer y lleoliad, yr ardaloedd allanol ac ymweliadau lleol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n gywrain. Yn ogystal, mae arweinwyr yn sicrhau bod hysbysebion a phosteri defnyddiol o gwmpas yr adeilad, sy'n cefnogi eu gweithdrefnau clir, fel siart lif ynglŷn â diogelu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sydd yn groesawgar, cyfeillgar a chynnes. Mae'r amgylchedd dan do yn cynnig digon o le ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol. Yn yr awyr agored, mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac yn cynnig heriau a chyfleoedd i gymryd risg. Er enghraifft, caiff blant eu herio i ddringo ar gyfarpar anturus. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau tŷ bach, golchi a sychu dwylo a newid clytiau addas, sy'n parchu preifatrwydd y plant a chynnig cyfleoedd i hybu eu hannibyniaeth.

Mae adnoddau amrywiol a phwrpasol, ar lefelau isel, ym mhob ardal o'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i deganau a chyfarpar, sy'n eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'u hamgylchedd ac yn gyfforddus i ddewis a dychwelyd adnoddau i'r mannau priodol. Mae'r ardaloedd yn yr awyr agored yn galluogi'r plant i arbrofi a datblygu eu medrau corfforol, creadigol a chyfathrebu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau cyfleoedd i wneud marciau, yn ogystal â meistroli eu medrau cydbwyso ar feiciau.

Anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig cyfleoedd iddynt ddysgu am fywydau pobl eraill ac i hybu eu hymwybyddiaeth am ddiwylliannau gwahanol. Er enghraifft, maent yn cael mynediad cyson i adnoddau a storïau o amrywiaeth o leoedd ar draws y byd. Yn ogystal, maent yn cael cyfle i ddysgu am ddiwrnodau ac achlysuron penodol. Er enghraifft, mae'r plant yn prynu cynhwysion yn y siopau lleol i goginio crempogau yng nghegin y lleoliad wrth ddathlu Dydd Mawrth Ynyd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r arweinydd a'r ymarferwyr cydwybodol i ddarparu profiadau difyr er lles y plant. Mae gweledigaeth gadarnhaol yr arweinwyr yn sicrhau darpariaeth gyfoethog, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau a lles y plant. Gwneir hyn trwy gynnig gweithgareddau amrywiol a diddorol, fel peintio baner Cymru â lliwiau llachar a chydbwyso siapiau tri-dimensiwn ar ben ei gilydd, yn gwbl annibynnol.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau sefydlog i gynnal a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar addysgu rhyngweithiol a chynllunio profiadau perthnasol, sy'n dilyn diddordebau'r plant yn fwriadus. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynnig

cymorth bugeiliol teyrngar. O ganlyniad, maent yn cymell y plant i ymdrechu a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu ac mae eu cefnogaeth synhwyrol yn ofalgar.

Defnyddir trefniadau cyson gan arweinwyr i fonitro arferion y lleoliad yn effeithiol. Maent yn cydweithio â'r arweinydd i ddilysu penderfyniadau yn dda ac i adeiladu ar gryfderau'r lleoliad a thargedu'r materion i'w gwella. Ar y cyfan, mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn llwyddo i wella'r ddarpariaeth yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau iaith y plant ac i ddysgu sut i rannu ag eraill. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn dîm cytûn ac maent yn cydweithio'n ddiwyd i gyflawni'r targedau a nodwyd yn y cynllun gwella.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac maent yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n rhan o fywyd y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau effeithiol â'r holl randdeiliaid, fel rhieni a gwarchodwyr a'r awdurdod lleol, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Yn ogystal, maent yn ymateb i awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn synhwyrol, fel eu cais i ymestyn oriau agor y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwys ar gael i gefnogi'r plant. Maent yn trefnu hyfforddiant defnyddiol i fodloni anghenion yr ymarferwyr yn ddeallus, sy'n cynnwys goruchwyliadau a gwerthusiadau bwriadus. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn dda.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol trwy gynnig profiadau difyr i'r plant ddysgu am eu cynefin. Er enghraifft, maent yn ymweld â siopau lleol i brynu cynhwysion i goginio ac yn arsylwi ar hwyaid ar lannau'r Dyfrdwy. Yn ogystal, mae'r berthynas a'r cydweithio cadarnhaol â'r ysgol gyfagos yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 26 Mai 2023